Llywodraeth Cymru
Welsh Government

St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

Pennaeth / Principal: Mark Leighfield BA Hons, MSc

# Cronfa Ariannol wrth Gefn (FCF)

## *Nodiadau arweiniad ymgeisio 2025/26*

Mae cymorth FCF yn ddewisol ac nid yw'n hawl. Mae cyllid yn gyfyngedig ac nid oes gwarant o unrhyw ddyfarniad. Mae dyraniadau hefyd yn amodol ar unrhyw newidiadau cyllidebol y gall Llywodraeth Cymru eu gorfodi.

Dolen at y ffurflen gais FCF

https://forms.office.com/e/CpQnNxX2Vp

Cyn cwblhau'ch cais FCF, mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau arweiniad hyn. Os nad ydych yn deall rhywbeth neu os ydych yn cael anhawster wrth gwblhau'ch cais, e-bostiwch eich cwestiynau i'n Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr ar studentservices@stdavidscollege.ac.uk

---

### Ydw i'n gymwys?

I fod yn gymwys ar gyfer cymorth ariannol o'r Gronfa Ariannol wrth Gefn (FCF):

- Rhaid eich bod yn derbyn LCA (Lwfans Cynhaliaeth Addysg)
- Rhaid bod gennych incwm aelwyd o hyd at £30,000
- Rhaid eich bod chi'n 16 oed neu'n hŷn ar 31 Awst 2025, ac wedi cofrestru ar gwrs addysg bellach llawn amser; neu gwrs rhan amser os nodir eich bod chi mewn gofal neu wedi gadael gofal
- Rhaid bod gennych gofnod presenoldeb o 95% a rhaid i chi gadw at Reolau Ymddygiad Dysgwyr y coleg Rhaid eich bod chi'n byw yn y DU fel arfer neu fod wedi byw yn y DU am 3 mlynedd cyn dechrau'r cwrs (neu'n cael eich cyfrif fel 'myfyriwr cartref' mewn ffordd arall, megis bod yn ddinesydd yr UE neu'n ffoadur). Yn anffodus, ni allwn gynnig FCF os ydych chi'n Geisiwr Lloches.

Os ydych chi ***dros 19 oed*** byddai'n rhaid i chi wneud cais am ***Grant Dysgu Llywodraeth Cymru*** – Addysg Bellach https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cyllid-addysg-bellach/grant-dysgu-llywodraeth-cymru/

**Rhaid i chi roi gwybod i ni os bydd eich amgylchiadau'n newid, er enghraifft eich cwrs, nifer o oriau astudio, trefniadau gofal plant, neu amgylchiadau personol.**

## Ar gyfer beth mae angen cymorth ariannol arnoch chi?

Gellir darparu cymorth ar gyfer y canlynol:

- **Costau teithio**
  Mae bysiau'r coleg ar gael o Gaerffili, RCT (Rhondda Cynon Taf) a Bro Morgannwg. Mae'n bosib y byddwch yn gymwys am bàs bws rhad ac am ddim, y byddai angen i chi wneud cais amdano drwy'r awdurdod lleol yn eich ardal.

  Os caiff eich cais gyda'r awdurdod lleol ei wrthod, gall yr FCF gefnogi gyda chost lawn y Pàs Bws

  Os ydych chi'n byw dros 3 milltir o'r coleg, bydd yr FCF yn talu am tocyn bws am ffi o £40.00 sy'n cael ei dalu pob 4 wythnos.

- **Trafnidiaeth gyda Chymorth**
  Cysylltwch â thîm ADY (Angehnion dysgu ychwanegol) y coleg i ofyn am gymorth gyda thrafnidiaeth twy'r e-bost - hhughes@stdavidscollege.ac.uk

- **Grant Offer**
  Bydd y grant yn talu tuag at gost prynu offer hanfodol ar gyfer eich cwrs.

- **Gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**
  Os yw'ch cwrs yn gofyn am wiriad DBS, gall y gronfa helpu tuag at y gost yma.

- **Gofal plant**
  Bydd y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn talu cyfraniad dyddiol. (Rhaid i'ch plentyn/plant fod gyda gwarchodwr plant neu feithrinfa gofrestredig.)

**Atebwch yr holl gwestiynau i'n caniatáu i asesu'ch cais yn gywir**

## Sut byddaf yn darganfod a yw fy nghais yn llwyddiannus?

Bydd pob cyfathrebiad â chi drwy e-bost i'ch cyfrif e-bost coleg.

## Beth os mae fy nghais yn aflwyddiannus?

Byddwn yn anfon hysbysiad at eich cyfrif e-bost coleg.
Os hoffech chi apelio yn erbyn y penderfyniad mae gennych 14 diwrnod o ddyddiad yr e-bost i wneud hynny.